# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

**RHAN 9**

AMRYWIOL

*Y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol*

**164 Cyfarwyddydau o dan adran 48 o Ddeddf 2013**

(1) Mae adran 48 o Ddeddf 2013 (cyfarwyddydau a chanllawiau ynghylch adolygiadau o dan Ran 3 o'r Ddeddf honno) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2)—

(a) ym mharagraff (a) yn lle "(gan gynnwys, pan fo'r Comisiwn wedi gwneud argymhellion neu gynigion iddynt, adolygiadau pellach)" rhodder "(ni waeth a fyddai gan y Comisiwn y pŵer, neu y byddai'n ddarostyngedig i ddyletswydd, o dan yr amgylchiadau, i gynnal yr adolygiad ai peidio)";

(b) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) pan fo'r Comisiwn wedi gwneud argymhellion neu gynigion i Weinidogion Cymru, i gynnal adolygiad pellach o dan y Rhan hon,

(ab) i roi'r gorau i gynnal adolygiad o dan y Rhan hon,";

(c) ym mharagraff (b) yn lle "adran 28" rhodder "y Rhan hon".

(3) Yn is-adran (5)—

(a) yn y testun Saesneg, hepgorer "to" yn y lle cyntaf y mae'n digwydd;

(b) yn y testun Saesneg, ym mharagraff (a), ar y dechrau mewnosoder "to";

(c) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) i roi'r gorau i gynnal adolygiad o dan adran 25 neu 31,

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(ab) i beidio â chynnal adolygiad o dan adran 25 neu 31 yn ystod cyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd,”;

(d) yn y testun Saesneg, ym mharagraff (b), ar y dechrau mewnosoder “to”.